Uno Prifysgol Cymru - Cwestiynau Cyffredin

C: Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Cymru? Ydy'r uno wedi digwydd?
A: Ym mis Hydref 2011, ymrwymodd cyrff llywodraethu Prifysgol Cymru, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i newid cyfansoddiadol di wrthdro ac uno. Cwblhawyd cam cyntaf y broses hon yn 2012 gydag uno Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, yn ogystal â chreu Adduned Cymru. Ym mis Awst 2017, cymeradwyodd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant weithred uno oedd yn cyflawni'r amcan polisi gwreiddiol o integreiddio dwy Brifysgol hanesyddol, gan greu Prifysgol newydd i Gymru. Dim ond pan fydd Prifysgol Cymru wedi cwblhau ei hymrwymiadau cyfreithiol i'w myfyrwyr rhyngwladol cyfredol, ei chanolfannau cydweithredol rhyngwladol a rhanddeiliaid eraill y gellir cwblhau'r uno cyfansoddiadol cyfreithiol.

C: Pwy oedd ag awdurdod i wneud penderfyniad ynglŷn ag uno?
A: Cyngor Prifysgol Cymru yw'r corff penderfynu sofran a'r Cyngor yw'r awdurdod a all wneud penderfyniadau o'r fath.

C: A ystyriwyd opsiynau eraill?
A: Do. Ystyriodd y Cyngor yr amrywiaeth lawn o opsiynau a gyflwynwyd yn adolygiad McCormick. Penderfynodd mai'r opsiwn gorau oedd ceisio uno cyfansoddiadol. Roedd Cyngor y Brifysgol wedi derbyn mwy nag un cynnig. Roedd ail gynnig gan Brifysgol arall yng Nghymru hefyd yn argymell uniad sefydliadol llawn, a chafwyd llythyr o ddiddordeb strategol gan Brifysgol wahanol.

C: Pam benderfynodd Prifysgol Cymru uno?
A: Gwnaed y penderfyniad i uno mewn ymateb uniongyrchol i gyfarwyddebau polisi Llywodraeth Cymru ym maes addysg uwch ar y pryd.

C: Beth oedd y cyfarwyddebau polisi allweddol?
A: Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) argymell cynnig newydd i ail-gyflunio addysg uwch drwy Gymru gyfan. Roedd y cynnig hwn yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion oedd yn awgrymu sawl uniad a chysylltiadau strategol i holl Brifysgolion Cymru. Roedd cynllun HEFCW yn amlinellu'n glir lleihad sylweddol yn y nifer o Brifysgolion yng Nghymru. Dim ond drwy uno y gellid cyflawni hyn. Ymgynghorodd y Gweinidog oedd yn gyfrifol am addysg uwch ar y cynigion hyn ac yna cyflwynodd ei argymhellion i Lywodraeth Cymru. Derbyniwyd y cynnig y dylai Prifysgol Cymru ei thrawsnewid ei hun drwy uno. Hefyd cymeradwywyd y cynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg uwch gan Gabinet Llywodraeth Cymru.

C: A gafwyd unrhyw argymhellion polisi eraill a ddylanwadodd ar y penderfyniad i uno?
A: Talodd Prifysgol Cymru, HEFCW a Llywodraeth Cymru sylw hefyd i'r argymhellion niferus a gyflwynwyd yn Adolygiad McCormick ar lywodraethu addysg uwch yng Nghymru. Un o orchwylion yr Adolygiad oedd ystyried yn fanwl rôl gyfredol y Brifysgol a'i rôl yn y dyfodol. Amlygodd yr adroddiad nifer o faterion ac opsiynau polisi. Un o'r argymhellion allweddol a gyflwynwyd oedd pe bai'r Brifysgol am gael rôl ystyrlon mewn cyd-destun addysg uwch yng Nghymru, y byddai'n rhaid iddi uno â Phrifysgol arall. Ystyriodd Prifysgol Cymru'r ddogfen polisi allweddol hon a phenderfynu gweithredu ar yr argymhelliad.

C: Beth yw'r camau allweddol mewn proses uno o'r fath?
A: Dylid ystyried unrhyw uno fel proses yn hytrach na digwyddiad unigol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ddwy Brifysgol yn cael eu llywodraethu â Siarteri Brenhinol. Roedd penderfyniad Prifysgol Cymru i uno i mewn i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn golygu y byddai'r Brifysgol newydd yn cael ei sefydlu drwy Siarter Brenhinol 1828 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. O ganlyniad, ar ddyddiad yr uno byddai siarter cyfredol Prifysgol Cymru yn cael ei ddiddymu a'i gyflwyno'n ôl i'w Huchelder y Frenhines. Ni fyddai'n bosibl cadw dau Siarter Brenhinol. Siarter 1828 yw'r Siarter Prifysgol Brenhinol hynaf yng Nghymru a Lloegr ar ôl y rhai sy'n cynrychioli Rhydychen a Chaergrawnt.

C: Beth yw camau ymarferol y broses?
A: Bydd rhaid i'r ddwy Brifysgol lynu wrth nifer o faterion cyfansoddiadol a strwythurol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n llawn â'r Cyfrin Gyngor, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae uno Prifysgolion â siarteri brenhinol yn fater cymhleth. Yr uno diwethaf o'r fath yng Nghymru oedd rhwng Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Cymru. Wrth i'r Brifysgol symud drwy'r camau gwahanol sy'n gysylltiedig â chwblhau ei hymrwymiadau cyfreithiol bydd angen cyflwyno Bil i Lywodraeth Cymru ar gyfer camau olaf y broses uno.

C: Pam nad yw'n bosibl i uno Prifysgol Cymru ar unwaith?
A: Rhaid i Brifysgol Cymru anrhydeddu ei hymrwymiadau cyfreithiol i'r miloedd o fyfyrwyr rhyngwladol a'r canolfannau rhyngwladol sydd wedi mynd i gytundebau contractaidd cyfreithiol mewn ewyllys da â Phrifysgol Cymru. Mae hon yn broses gymhleth a manwl ac mae angen ei rheoli'n ofalus. Y broses derfynu gyfredol a ddechreuwyd gan Brifysgol Cymru yw un o gamau pwysicaf y broses uno.

C: Sut fydd y Brifysgol yn anrhydeddu ei hymrwymiad cyfreithiol i fyfyrwyr sydd wedi matriciwleiddio ar ddyfarniad Cymru?
A: Mae Cyngor y Brifysgol wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus bod unrhyw fyfyriwr sy'n gofrestredig ar ddyfarniad Cymru yn cael y cyfle i gwblhau ei astudiaethau. Mae hyn hefyd wedi'i rannu gyda'r canolfannau cydweithredol rhyngwladol cyfredol sy'n cynnig rhaglenni astudio dan y model dilysedig blaenorol.

C: Beth mae'r uno hwn yn ei olygu i fyfyrwyr cyfredol ac i fyfyrwyr sydd ar fin dechrau eu rhaglenni astudio?
A: Bydd y Brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr cyfredol ar bob cam o'u hastudiaethau barhau hyd nes y bydd eu rhaglen gyfredol wedi dod i ben. Bydd myfyrwyr sydd ar fin dechrau eu hastudiaethau neu sy'n rhan o gohort yn y dyfodol sydd wedi'i gytuno gyda'r ganolfan gydweithredol a'r Brifysgol yn cael eu cofrestru â Phrifysgol Cymru ac yn cael cwblhau eu rhaglenni.

C: Pa mor hir fydd gan fyfyrwyr i gwblhau eu graddau (gan gynnwys ailsefyll) a phwy fydd yn dyfarnu'r radd?
A: Bydd yr holl fyfyrwyr sydd wedi dechrau astudio ar adegau a gytunwyd ac sydd wedi'u penodi yng nghytundeb dilysu pob canolfan yn cael cwblhau eu hastudiaethau dan yr amserlenni rhagnodedig yn Rheoliadau'r Brifysgol. Bydd Prifysgol Cymru yn parhau i fod yn gorff dyfarnu graddau i'r holl fyfyrwyr cyfredol drwy gydol eu cwrs.

C: A fydd gan dystysgrifau gradd "Prifysgol Cymru" arnynt fel corff dyfarnu graddau ac a yw gwerth y radd wedi newid?
A: Bydd myfyriwr sy'n astudio ar hyn o bryd am radd Prifysgol Cymru yn derbyn tystysgrif gradd pan fydd yn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus a fydd yn cynnwys "Prifysgol Cymru" fel corff dyfarnu'r radd. Mae gan radd Prifysgol Cymru ac enw Prifysgol Cymru hanes cryf ac maent yn cael eu cydnabod yn eang a'u parchu gan gyflogwyr yn fyd-eang.

C: Ydy Prifysgol Cymru yn parhau i weithredu fel corff achredu graddau i brifysgolion eraill yng Nghymru?
A: Penderfynodd Cyngor Prifysgol Cymru ym mis Hydref 2011 y byddai'n rhoi rhybudd i holl Brifysgolion Cymru na fyddai'n gweithredu bellach fel corff achredu i'r sefydliadau hynny yr oedd ganddynt eu pwerau dyfarnu graddau eu hunain.

C: Ydy'r hen Golegau Cyfansoddol [Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe] yn parhau i fod yn aelodau o Brifysgol Cymru?
A: Nac ydynt. Gadawodd yr holl sefydliadau cyfansoddol gwreiddiol Brifysgol Cymru ar ol derbyn eu pwerau dyfarnu graddau eu hunain. Roedd hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y sefydliadau cyfansoddol gwreiddiol i gyd rybudd a gadael. Wrth adael y Brifysgol ildiodd y sefydliadau eu cyfrifoldebau ymddiriedolaeth dros y gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad. Drwy wneud hyn, nid oedd gan y sefydliadau cyfansoddol unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol am unrhyw rwymedigaethau a nodwyd yn enw Prifysgol Cymru chwaith.

C: Pwy oedd yn gyfrifol am yr holl newidiadau strwythurol ar ôl i'r sefydliadau cyfansoddol adael?
A: Sefydlodd Prifysgol Cymru grŵp adolygu yn 2003/4 i ailstrwythuro Prifysgol Cymru. Roedd y grŵp adolygu yn cynnwys aelodau o'r tu mewn i Brifysgol Cymru ac o'r sefydliadau cyfansoddol oedd yn gadael. Cadeiriwyd y grŵp gan y Dirprwy Ganghellor ar y pryd, yr Arglwydd Wigley o Gaernarfon. Cynigiwyd newidiadau sylweddol a chawsant eu derbyn gan y partïon i gyd. Roedd y rhain yn cynnwys drafftio siarter atodol, dod â Llys y Brifysgol a phwyllgor gwreiddiol Urdd y Graddedigion i ben a phenodi Is-Ganghellor annibynnol. Ystyriaeth allweddol gan

bob parti oedd na ddylai strwythurau megis y Llys ac Urdd y Graddedigion gystadlu â strwythurau tebyg yn Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Derbyniwyd hyn gan Gyngor Prifysgol Cymru.

C: Beth yw Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru a phwy yw ei haelodau?
A: Mae gan bob myfyriwr sydd wedi cwblhau Gradd, Diploma neu Dystysgrif a ddyfernir gan Brifysgol Cymru yn llwyddiannus, boed yn astudio mewn sefydliad yng Nghymru neu yn un o'n canolfannau cydweithredol rhyngwladol niferus, yr hawl i ddod yn aelod o Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru. Mae aelodaeth o'r Gymdeithas am ddim, a chyda graddedigion ym mhedwar ban byd, mae aelodau'n cael cysylltu â phobl ar raddfa fyd-eang. Yn ogystal â chadw cysylltiad â'r Brifysgol ac â'i gilydd, mae'n bosibl y bydd gan aelodau hawl i amrywiaeth o fuddiannau a chael cadw'n gyfredol â newyddion a digwyddiadau cyn-fyfyrwyr ar draws y byd.

C: Beth fydd yn digwydd i'r gwasanaethau eraill a gynigir gan Brifysgol Cymru?
A: Mae gan Gyngor Prifysgol Cymru ddyletswydd ymddiriedolaeth. Mae datganiad cyhoeddus eisoes wedi'i wneud eu bod wedi sefydlu Adduned Cymru a fydd yn cynnwys ystod o drefniadau strategol i ddiogelu rhai o'r gwasanaethau traddodiadol sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

C: Beth fydd yn digwydd i'r ychydig o dir sydd heb ei werthu eto fel rhan o gymynrodd Deddf Eglwysi Cymru?
A: Caiff y tir ei werthu a bydd y cyllid a geir yn cael ei rannu'n unol â'r weithred gyfreithiol rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Abertawe, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Cymru neu'r corff fydd yn ei holynu.